CPS

Y Cod

ar gyfer Erlynwyr y Goron

Gwasanaeth Erlyn y Goron
Chwefror 2010

Mae'r daflen hon ar gael yn:

এই লিফলেটটি বাংলায় পাওয়া যাচ্ছে (Bengali)

ਇਹ ਕਿਤਾਬਚਾ ਪੰਜਾਬੀ ਵਿੱਚ ਉਪਲਬਧ ਹੈ (Punjabi)

આ પત્રિકા ગુજરાતીમાં મળી શકે છે (Gujurati)

This booklet is available in English (Saesneg)

இந்த சிற்றேடு தமிழ் மொழியிலும் கிடைக்கும். (Tamil)

本手冊提供中文繁體版本 (Traditional Chinese)

Macluum-sidahaan waxaa lagu helaa af-Soomaali (Somali)

Ce dépliant est disponible en français (Ffrengig)

Ulotka niniejsza dostępna jest w języku polskim (Polish)

هذه النشرة متوفرة باللغة العربيه (Arabic)

یہ کتابچہ اردو میں دستیاب ہے۔ (Urdu)

Cyflwyniad

1.1 Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yw'r prif wasanaeth erlyn cyhoeddus ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn Ionawr 2010, fe'i hunwyd â'r Swyddfa Erlyniadau Cyllid a Thollau (RCPO). Arweinir y gwasanaeth gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP), sydd hefyd yn Gyfarwyddwr Erlyniadau Incwm a Thollau. Mae'r DPP yn arfer ei swyddogaethau'n annibynnol, yn amodol i oruchwyliaeth y Twrnai Cyffredinol sy'n atebol i'r Senedd am waith y gwasanaeth erlyn.

1.2 Dan adran 10 y Ddeddf Erlyn Troseddau 1985, y DPP sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron (y Cod). Mae'r Cod yn rhoi canllaw i erlynwyr ar yr egwyddorion cyffredinol i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau am erlyniadau. Dyma'r chweched rhifyn o'r Cod ac mae'n disodli fersiynau cynharach.

1.3 Yn y Cod hwn, defnyddir y term "erlynwyr" i ddisgrifio aelodau o'r gwasanaeth erlyn sydd wedi eu dynodi yn Erlynwyr y Goron; erlynwyr sy'n aelodau o'r RCPO; Erlynwyr Cysylltiol a ddynodwyd dan adran 7A y Ddeddf Erlyn Troseddau 1985 ac sy'n arfer eu grymoedd yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan y DPP; ac aelodau eraill o'r RCPO sydd wedi eu penodi gan y DPP trwy rinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyllid a Thollau dan adran 39 y Ddeddf Comisiynwyr ar gyfer Cyllid a Thollau 2005.

1.4 Yn y Cod hwn, defnyddir yr ymadrodd "heddlu neu ymchwilwyr eraill" i ddisgrifio aelodau o'r holl asiantaethau ymchwilio hynny, yn cynnwys yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol ac Asiantaeth Ffiniau'r DU, sy'n paratoi a chyflwyno achosion i'r gwasanaeth erlyn.

1.5 Er bod y gwasanaeth erlyn yn gweithio'n agos gyda'r heddlu ac ymchwilwyr eraill, mae'n annibynnol ohonynt. Mae annibyniaeth erlynwyr o bwys cyfansoddiadol sylfaenol.

1.6 Mae'r gwasanaeth erlyn yn cydweithio gydag asiantaethau ymchwilio ac erlyn awdurdodau eraill i hwyluso ymholiadau ac erlyniadau yng Nghymru a Lloegr a thramor.

1.7 Yn unol ag adran 36(2) y Ddeddf Comisiynwyr ar gyfer Cyllid a Thollau 2005, rhaid i erlynwyr o'r RCPO sy'n gweithredu yn rhinwedd eu swydd dalu sylw i'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron a gyhoeddir gan y DPP.

1.8 Yn y Cod hwn, defnyddir yr ymadrodd "y sawl a ddrwgdybir" i ddisgrifio unigolyn nad yw'n amodol i weithdrefnau troseddol ffurfiol eto; defnyddir y term "diffynnydd" i ddisgrifio unigolyn sydd wedi ei gyhuddo neu ei wysio; a defnyddir yr ymadrodd "troseddwr" i ddisgrifio unigolyn sydd wedi cyfaddef ei fod ef neu ei bod hi yn euog i swyddog o'r heddlu neu ymchwilydd neu erlynydd arall, neu a gafwyd yn euog mewn llys barn.

1.9 Mae'r Cod yn un o ddwy ddogfen a gyhoeddir ac sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n esbonio pwrpas a gwaith y swyddfa erlyniadau. Yr ail yw'r llyfryn Safonau Ansawdd Craidd. Dim ond y Cod a gyhoeddir dan y gyfraith.

1.10 Gyda'i gilydd, maent yn rhoi gwybod i'r cyhoedd beth yw gwaith erlynwyr; sut maent yn dod i benderfyniadau; a'r lefel o wasanaeth mae'r gwasanaeth erlyn wedi ymroi i ddarparu ym mhob agwedd o'i waith.

1.11 Mae'r Cod a'r llyfryn Safonau Ansawdd Craidd ar gael gan y pwyntiau cyswllt a restrir ar gefn glawr y llyfryn hwn.

Egwyddorion Cyffredinol

2.1 Mae'r penderfyniad i erlyn neu i gynnig penderfyniad y tu allan i'r llys yn gam difrifol. Mae erlyn yn deg ac effeithiol yn hollbwysig er mwyn cynnal cyfraith a threfn. Mae'n ddyletswydd ar erlynwyr i sicrhau yr erlynir yr unigolyn cywir ar gyfer y drosedd gywir gan ddod â throseddwyr i gyfiawnder ble bynnag fo'n bosibl. Mae gwneud penderfyniadau am waith achosion penodol yn deg, yn ddiduedd a gonest yn helpu cyflwyno cyfiawnder i ddioddefwyr, tystion, diffynyddion a'r cyhoedd.

2.2 Mae'n ddyletswydd i erlynwyr arolygu, cynghori ar ac erlyn achosion neu i gynnig penderfyniad priodol tu allan i'r llys i'r troseddwr. Rhaid i erlynwyr sicrhau y gweithredir y gyfraith yn briodol; y cyflwynir yr holl dystiolaeth berthnasol gerbron y llys; ac y cydymffurfir ag oblygiadau datgeliad, yn unol â'r egwyddorion a gyflwynir yn y Cod hwn.

2.3 Er bod angen ystyried pob achos yn ôl ei ffeithiau a'i rinweddau unigol, mae yna egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol i'r modd y mae'n rhaid i erlynwyr edrych ar bob achos.

2.4 Rhaid i Erlynwyr fod yn deg, yn annibynnol ac yn wrthrychol. Rhaid iddynt beidio â gadael i unrhyw farn bersonol am darddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, anabledd, oed, crefydd neu gredo, daliadau gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd y sawl a ddrwgdybir, y dioddefwr neu unrhyw dyst i ddylanwadu ar eu penderfyniadau. Ni ddylai pwysau amhriodol neu anaddas o unrhyw ffynhonnell effeithio arnynt ychwaith. Rhaid i Erlynwyr y Goron weithredu bob amser er lles cyfiawnder. Ni ddylent weithredu er mwyn cael barnu rhywun yn euog o drosedd yn unig.

2.5 Mae'r gwasanaeth erlyn yn awdurdod cyhoeddus er dibenion deddfwriaeth cyfartaledd berthnasol gyfredol. Mae erlynwyr wedi eu rhwymo gan y dyletswyddau a sefydlir yn y ddeddfwriaeth hon.

2.6 Mae'r gwasanaeth erlyn hefyd yn awdurdod cyhoeddus er dibenion Deddf Hawliau Dynol 1998. Rhaid i erlynwyr gymhwyso egwyddorion y Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol, ar bob cam o'r achos. Rhaid i erlynwyr hefyd gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Twrnai Cyffredinol a gyda pholisïau'r gwasanaeth erlyn a gyhoeddir ar ran y DPP. Rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Droseddol sy'n weithredol ar hyn o bryd.

Penderfynu p'un ai i Erlyn neu Beido

3.1 Mewn achosion mwy difrifol neu gymhleth, erlynwyr sy'n penderfynu a ddylid cyhuddo rhywun o gyflawni trosedd, ac os dylid, pa drosedd sy'n briodol. Maent yn gwneud y penderfyniadau hyn yn unol â'r Cod hwn a Chyfarwyddyd y DPP ynghylch Cyhuddo. Defnyddia'r heddlu yr un egwyddorion wrth benderfynu p'un a ddylid cyhuddo neu wysio unigolyn yn yr achosion hynny maent yn gyfrifol amdanynt.

3.2 Mae'r heddlu ac ymchwilwyr eraill yn gyfrifol am gyflawni ymholiadau i gyhuddiad o drosedd bosibl. Arolygir pob achos mae erlynwyr yn derbyn gan yr heddlu neu ymchwilwyr eraill. Rhaid i erlynwyr sicrhau fod ganddynt yr holl wybodaeth maent angen i wneud penderfyniad cytbwys yngl n â'r dull gorau o ddelio â'r achos. Bydd hyn yn aml yn cynnwys erlynwyr yn cynnig canllaw a chyngor i'r heddlu ac ymchwilwyr eraill ynghylch eu hymholiadau, gofynion tystiolaeth, a chymorth gydag unrhyw weithdrefnau cyn cyhuddo trwy gydol y broses ymchwilio ac erlyn. Fodd bynnag, ni all erlynwyr gyfeirio'r heddlu nac ymchwilwyr eraill.

3.3 Dylai erlynwyr nodi a, ble fo'n bosibl, geisio unioni gwendidau mewn tystiolaeth ond, yn amodol i'r Prawf Trothwy (gweler adran 5), dylent weithredu ar unwaith i atal achos nad yw'n bodloni cam dystiolaeth y Prawf Cod Llawn (gweler adran 4) ac na ellir ei gryfhau gydag ymchwilio pellach, neu ble'i bod yn amlwg na fyddai erlyniad er lles y cyhoedd (gweler adran 4). Er bod yr erlynydd yn ystyried y dystiolaeth a'r wybodaeth a gyflenwyd gan yr heddlu ac ymchwilwyr eraill yn gyntaf, gall y sawl a ddrwgdybir neu rai sy'n gweithredu ar ei ran neu ar ei rhan hefyd gyflwyno tystiolaeth neu wybodaeth i'r erlynydd trwy'r heddlu neu ymchwilwyr eraill cyn cyhuddo, i helpu hysbysu penderfyniad yr erlynydd.

3.4 Dim ond pan fydd yr achos wedi pasio dau gam y Prawf Cod Llawn (gweler adran 4) all erlynwyr gychwyn neu barhau gydag erlyniad. Yr eithriad yw pan ellir gweithredu Prawf Trothwy (gweler adran 5) ble cynigir gwneud cais i'r llys i gadw'r sawl a ddrwgdybir yn y ddalfa wedi cyhuddo, ac nad yw'r dystiolaeth sydd angen i weithredu'r Prawf Cod Llawn ar gael eto.

3.5 Rhaid i erlynwyr sicrhau nad ydynt yn gadael i erlyniad gychwyn neu barhau os byddai'r llysoedd yn ystyried ei bod yn ormesol neu'n annheg i wneud hynny ac felly'n gamddefnydd o broses y llys.

3.6 Mae arolwg yn broses barhaus a rhaid i erlynwyr dalu sylw i unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n digwydd wrth i'r achos ddatblygu. Lle bynnag fo'n bosibl, dylent siarad â'r ymchwilydd yn gyntaf os ydynt yn ystyried newid y cyhuddiadau neu atal yr achos. Mae erlynwyr ac ymchwilwyr yn cydweithio'n agos, ond y gwasanaeth erlyn sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfynu p'un a ddylai achos fynd yn ei flaen neu beidio.

3.7 Mae'r Senedd wedi penderfynu mai dim ond gyda chytundeb y DPP ddylai nifer gyfyngedig o droseddau difrifol neu sensitif iawn fynd i'r llys. Fe'i gelwir yn achosion "caniatâd". Mewn achosion o'r fath, mae'r DPP neu erlynwyr yn gweithredu ar ei ran yn defnyddio'r Cod wrth benderfynu p'un a ddylid rhoi caniatâd i erlyn.

Y Prawf Cod Llawn

4.1 Y mae dau gam i'r Prawf Cod Llawn: (i) y cam tystiolaethol; ac yna'r (ii) cam lles y cyhoedd.

4.2 Gan amlaf, dim ond wedi i'r ymchwiliad ddod i ben ac wedi arolygu'r holl dystiolaeth sydd ar gael y dylai erlynwyr benderfynu p'un a ydynt am erlyn. Fodd bynnag, bydd achosion ble mae'n glir, cyn casglu ac ystyried yr holl dystiolaeth debygol, nad yw lles y cyhoedd yn gofyn am erlyniad. Yn yr achosion prin hyn, efallai y bydd erlynwyr yn penderfynu na ddylai'r achos fynd ymhellach.

4.3 Dim ond pan fyddant yn fodlon y pennwyd ehangder cyffredinol y troseddolrwydd ac y gallant wneud asesiad cytbwys o les y cyhoedd ddylai erlynwyr wneud penderfyniad o'r fath. Os nad oes gan erlynwyr ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad o'r fath, dylai'r ymchwiliad fynd yn ei flaen gan benderfynu'n hwyrach yn unol â'r Prawf Cod Llawn a sefydlir yn yr adran hon.

4.4 Rhaid i erlynwyr ddilyn unrhyw ganllaw a gyhoeddir gan y DPP i sicrhau fod penderfyniadau yn yr achosion hyn yn briodol a chywir.

Y Cam Tystiolaethol

4.5 Rhaid i erlynwyr fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn yn erbyn pob sawl a ddrwgdybir ar bob cyhuddiad. Rhaid iddynt ystyried achos tebygol yr amddiffyniad, a sut mae hynny'n debygol o effeithio ar y tebygolrwydd o euogfarn. Ni ddylai achos nad yw'n pasio'r cam tystiolaeth fynd yn ei flaen, waeth pa mor sensitif neu ddifrifol ydyw.

4.6 Mae rhagolwg realistig o euogfarn yn brawf gwrthrychol yn seiliedig ar ddim mwy nag asesiad yr erlynydd o'r dystiolaeth ac

unrhyw wybodaeth sydd ganddo ef neu sydd ganddi hi am yr amddiffyn y gallai'r sawl a ddrwgdybir gyflwyno. Mae'n golygu y byddai rheithgor neu fainc o ynadon neu farnwr sy'n gwrando achos ar ei ben ei hun yn wrthrychol, yn amhleidiol ac yn gyfrifol, wedi derbyn cyfarwyddyd priodol ac yn gweithredu yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o farnu'r diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig. Mae hwn yn brawf gwahanol i'r prawf y mae'n rhaid i'r llysoedd troseddol eu hunain ystyried. Dim ond os yw'n sicr fod y diffynnydd yn euog y gall llys wneud euogfarn.

4.7 Wrth benderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn, rhaid i erlynwyr ystyried a ellir defnyddio'r dystiolaeth a p'un a yw'n ddibynadwy. Fe fydd llawer o achosion lle nad yw'r dystiolaeth yn achos pryder. Ond fe fydd achosion eraill lle na fydd y dystiolaeth mor gryf ag yr ymddangosai ar y cychwyn. Yn arbennig, bydd angen i erlynwyr ystyried y materion canlynol.

A ellir defnyddio'r dystiolaeth yn y llys?

a) A yw hi'n debygol y bydd y dystiolaeth yn cael ei gwahardd gan y llys? Mae yna reolau cyfreithiol a allai rwystro tystiolaeth a ymddengys i fod yn berthnasol rhag cael ei chyflwyno mewn treial. Er enghraifft, a yw hi'n debygol y bydd y dystiolaeth yn cael ei gwahardd oherwydd y modd y'i sicrhawyd?

b) A yw'r dystiolaeth yn adroddiad ail-law? Os felly, a yw'r llys yn debygol o ganiatáu ei gyflwyno dan unrhyw un o'r eithriadau sy'n caniatáu rhoi tystiolaeth o'r fath gerbron y llys?

c) A yw'r dystiolaeth yn ymwneud â chymeriad gwael y sawl a ddrwgdybir? Os felly, a yw'r llys yn debygol o ganiatáu ei gyflwyno?

A yw'r dystiolaeth yn ddibynadwy?

d) Pa esboniad a roddodd y sawl a ddrwgdybir? A yw llys yn debygol o gredu'r esboniad o ystyried yr holl dystiolaeth? A yw'r dystiolaeth yn cefnogi esboniad diniwed?

e) A oes tystiolaeth a allai gefnogi neu danseilio dibynadwyedd cyffes? A effeithir ar ei ddibynadwyedd gan ffactorau eraill megis lefel dealltwriaeth y sawl a ddrwgdybir?

f) A yw hunaniaeth y sawl a ddrwgdybir yn debygol o fod dan amheuaeth? A yw'r dystiolaeth ynghylch ei hunaniaeth ef neu hi yn ddigon cryf? A gyflawnwyd y gweithdrefnau adnabod priodol? Os na, pam ddim? A fydd unrhyw fethiant i gyflawni'r gweithdrefnau adnabod priodol yn arwain at eithrio tystiolaeth adnabod hunaniaeth?

g) A oes pryder ynghylch cywirdeb, dibynadwyedd neu hygrededd tystiolaeth unrhyw dyst?

h) A oes tystiolaeth bellach y byddai'n rhesymol i ofyn i'r heddlu neu ymchwilwyr eraill ei ganfod a allai gefnogi neu danseilio adroddiad y tyst?

i) A oes gan unrhyw dyst gymhelliad a allai effeithio ar ei agwedd ef neu hi tuag at yr achos?

j) A oes gan unrhyw dyst euogfarn neu benderfyniad tu allan i'r llys blaenorol perthnasol allai effeithio ar ei hygrededd ef neu hi?

k) A ellid sicrhau unrhyw dystiolaeth bellach a fyddai'n cefnogi hygrededd tystiolaeth a gasglwyd eisoes?

4.8 Ble'r ystyrir y byddai'n ddefnyddiol i asesu dibynadwyedd tystiolaeth tyst neu i gael gwell dealltwriaeth o dystiolaeth gymhleth, dylai erlynydd sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol ac awdurdod gynnal cyfweliad cyn treial gyda'r tyst yn unol â'r Cod Ymarfer perthnasol.

4.9 Ni ddylai erlynwyr anwybyddu tystiolaeth am nad ydynt yn sicr y gellir ei defnyddio neu ei bod yn ddibynadwy. Ond fe ddylent edrych yn ofalus ar y dystiolaeth wrth benderfynu a oes gobaith realistig o euogfarn.

Y Cam Lles Y Cyhoedd

4.10 Yn 1951, gwnaeth Syr Hartley Shawcross, y Twrnai Cyffredinol ar y pryd, ddatganiad clasurol ar les y cyhoedd: "Ni fu hi erioed yn rheol yn y wlad hon – a gobeithio na fydd hi byth – ein bod ni'n awtomatig yn erlyn lle bo amheuaeth o drosedd". Ychwanegodd y dylid erlyn: "ble bynnag yr ymddengys fod y drosedd neu'r amgylchiadau dros ei gomisiynu o'r fath gymeriad fel bod angen erlyn parthed y drosedd er lles y cyhoedd" (Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, Cyfrol 483, 29 Ionawr 1951). Mae'r dynesiad hwn wedi ei gymeradwyo gan Dwrneiod Cyffredinol byth ers hynny.

4.11 Felly, ble ceir digon o dystiolaeth i gyfiawnhau erlyniad neu i gynnig penderfyniad tu allan i'r llys, rhaid i erlynwyr fynd ymlaen i ystyried p'un a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd.

4.12 Bydd erlyniad fel arfer yn digwydd oni bai fod yr erlynydd yn sicr fod yna ffactorau lles y cyhoedd yn erbyn erlyn sy'n drech na'r rhai sydd o blaid, neu oni bai fod yr erlynydd yn fodlon y gellir gwasanaethu lles y cyhoedd yn gywir trwy gynnig cyfle i'r diffynnydd gael delio â'r mater gyda phenderfyniad tu allan i'r llys yn gyntaf (gweler adran 7). Po fwyaf difrifol yw'r drosedd neu gofnod ymddygiad troseddol y troseddwr, y mwyaf tebygol yw hi y bydd angen erlyniad er lles y cyhoedd.

4.13 Mae mwy i benderfynu ar les y cyhoedd na dim ond cyfrif y nifer o ffactorau ar bob ochr a gweld pa un sydd â'r nifer fwyaf. Rhaid ystyried pob achos yn ôl ei ffeithiau a rhinweddau ei hun. Rhaid i erlynwyr benderfynu ar bwysigrwydd pob ffactor lles y cyhoedd yn amgylchiadau pob achos a mynd ymlaen i wneud asesiad cyffredinol. Mae'n ddigon posibl y gallai un ffactor unigol gario mwy o bwysau na nifer o ffactorau eraill sy'n ffafrio'r trywydd arall. Er y gall fod ffactorau lles y cyhoedd yn ffafrio peidio erlyn mewn achos penodol, dylai erlynwyr ystyried p'un a ddylid bwrw ymlaen â'r erlyniad p'un bynnag a chyflwyno'r ffactorau hynny gerbron y llys i gael eu hystyried wrth ddedfrydu.

4.14 Nid yw absenoldeb ffactor o reidrwydd yn golygu y dylid ei ystyried fel ffactor sy'n ffafrio'r cyfeiriad arall. Er enghraifft, nid yw'r ffaith nad yw'n drosedd a "gyflawnwyd gan grŵp" yn troi'r "ffactor sy'n ffafrio erlyniad" i "ffactor sy'n ffafrio peidio erlyn".

4.15 Rhestrir ambell ffactor lles y cyhoedd cyffredin y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o weithredu. Nid yw'r rhestrau canlynol o ffactorau lles y cyhoedd yn holl gynhwysol a rhaid ystyried pob achos yn ôl ei ffeithiau a rhinweddau ei hun.

Rhai ffactorau cyffredin o ran lles y cyhoedd sydd o blaid erlyn

4.16 Mae'n fwy tebygol y bydd angen erlyn:

a) os bydd euogfarn yn debygol o arwain at ddedfryd sylweddol;

b) os bydd euogfarn yn debygol o arwain at orchymyn llys sy'n fwy na'r hyn y gall erlynydd sicrhau trwy rybuddion amodol;

c) os oedd y drosedd yn cynnwys defnyddio arf neu fygwth trais;

d) os cyflawnwyd y drosedd yn erbyn unigolyn sy'n gwasanaethu'r cyhoedd (er enghraifft, aelod o'r gwasanaethau brys; swyddog yr heddlu neu garchar; gweithiwr iechyd neu les cymdeithasol, neu ddarparwr trafnidiaeth gyhoeddus);

e) os oedd y drosedd yn rhagfwriadol;

f) os cyflawnwyd y drosedd gan grŵp;

g) os cafodd y drosedd ei chyflawni ym mhresenoldeb plentyn neu'n agos at blentyn;

h) os cafodd y drosedd ei symbylu gan wahaniaethu o unrhyw fath yn erbyn tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, anabledd, oed, crefydd neu gredo, daliadau gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd y dioddefydd, neu os yw'r sawl a ddrwgdybir wedi bod yn elyniaethus tuag at y dioddefydd ar sail unrhyw rai o'r nodweddion hynny;

i) os cyflawnwyd y drosedd er mwyn hwyluso troseddu mwy difrifol;

j) os oedd dioddefydd y drosedd mewn sefyllfa fregus ac i'r sawl a ddrwgdybir gymryd mantais o hyn;

k) os oedd elfen o lygredigaeth o'r dioddefydd yn y modd y cyflawnwyd y drosedd;

l) os oedd gwahaniaeth amlwg yn oed y sawl a ddrwgdybir a'r dioddefydd ac i'r sawl a ddrwgdybir gymryd mantais o hyn;

m) os oedd gwahaniaeth amlwg yn lefelau dealltwriaeth y sawl a ddrwgdybir a'r dioddefydd ac i'r sawl a ddrwgdybir gymryd mantais o hyn;

n) os oedd y sawl a ddrwgdybir mewn safle o awdurdod neu ymddiriedaeth ac iddo ef neu hi gymryd mantais o hyn;

o) os mai'r sawl a ddrwgdybir a drefnodd y drosedd;

p) os yw euogfarnau blaenorol neu benderfyniadau tu allan i'r llys blaenorol a dderbyniodd y sawl a ddrwgdybir yn berthnasol i'r drosedd bresennol;

q) os honnir bod y sawl a ddrwgdybir wedi cyflawni'r trosedd gan dorri gorchymyn y llys;

r) os byddai erlyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol o ran cynnal hyder y gymuned;

s) os oes rheswm i gredu fod y drosedd yn debygol o barhau neu gael ei hailadrodd.

Rhai ffactorau cyffredin o ran lles y cyhoedd sydd yn erbyn erlyn

4.17 Mae'n llai tebygol y bydd angen erlyn:

a) os yw'r llys yn debygol o roi cosb mewn enw yn unig;

b) os gellir delio'n briodol â difrifoldeb ac oblygiadau'r troseddu gyda phenderfyniad tu allan i'r llys y mae'r sawl a ddrwgdybir yn derbyn ac y mae ef neu hi yn cydymffurfio â'r penderfyniad (gweler adran 7);

c) os yw'r sawl a ddrwgdybir wedi bod yn amodol i unrhyw weithdrefnau rheoleiddiol priodol, neu unrhyw gosb gosbol neu sifil perthnasol sy'n parhau i fod yn weithredol neu sydd wedi ei ryddfarnu'n foddhaol, sy'n delio'n ddigonol â difrifoldeb y troseddu ac unrhyw dor ymddiriedaeth gysylltiedig;

d) os cyflawnwyd y drosedd o ganlyniad i gamgymeriad neu gamddealltwriaeth gwirioneddol;

e) os gellir dweud mai colled neu niwed 'bychan' a gafwyd, a hynny o ganlyniad i un digwyddiad, yn arbennig os oedd o ganlyniad i gamfarnu;

f) os bu oedi hir rhwng cyflawni'r drosedd a dyddiad y treial, oni bai:

- fod y drosedd yn un ddifrifol;
- fod y sawl a ddrwgdybir yn rhannol neu gyfan gwbl gyfrifol am yr oedi;
- fod y drosedd newydd ddod i'r amlwg;
- fod cymhlethdod y drosedd wedi golygu ymchwiliad hir; neu
- defnyddiwyd technegau ymchwilio newydd i ail archwilio troseddau oedd heb eu datrys ac, o ganlyniad, daeth enw i'r amlwg ar gyfer sawl a ddrwgdybir;

g) os bydd erlyniad yn debygol o gael effaith andwyol ar iechyd corfforol neu feddyliol y dioddefydd, gan gadw difrifoldeb y drosedd a barn y dioddefydd am effaith erlyniad ar ei iechyd corfforol neu feddyliol ef neu hi mewn cof ar bob adeg;

h) os chwaraeodd y sawl a ddrwgdybir rôl fechan yng nghomisiynu'r drosedd;

i) os yw'r sawl a ddrwgdybir wedi unioni'r golled neu niwed a achoswyd (ond ni ddylai sawl a ddrwgdybir osgoi erlyniad neu benderfyniad tu allan i'r llys dim ond am ei fod ef neu ei bod hi yn talu iawndal neu'n ad-dalu'r swm o arian y mae ef neu hi wedi caffael yn anghyfreithiol);

j) os yw'r sawl a ddrwgdybir yn dioddef o salwch meddyliol neu gorfforol difrifol, neu y bu'n dioddef felly adeg y

drosedd, oni bai fod y drosedd yn un ddifrifol neu fod posibilrwydd gwirioneddol y gallai trosedd o'r fath ddigwydd eto. Mae erlynwyr yn defnyddio canllawiau'r Swyddfa Gartref ar sut i ddelio â throseddwyr ag afiechyd meddyliol a rhaid i erlynwyr bwyso a mesur afiechyd meddyliol neu gorfforol y sawl a ddrwgdybir gyda'r angen i ddiogelu'r cyhoedd neu ddarparu gwasanaethau gofal i bobl o'r fath;

k) gall erlyniad fod angen rhyddhau manylion i'r cyhoedd a allai wneud drwg i ffynonellau gwybodaeth, cysylltiadau rhyngwladol neu ddiogelwch y wlad.

Barn y dioddefwyr neu eu teuluoedd

4.18 Wrth benderfynu p'un a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd, dylai erlynwyr ystyried unrhyw farn a fynegwyd gan y dioddefydd parthed effaith y drosedd arnynt. Mewn achosion priodol, er enghraifft, achos o ddynladdiad neu os yw'r dioddefydd yn blentyn neu oedolyn analluog yn ôl diffiniad y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, dylai erlynwyr ystyried unrhyw farn a fynegir gan deulu'r dioddefydd.

4.19 Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth erlyn yn gweithredu ar ran dioddefwyr neu eu teuluoedd yn yr un modd ag y mae cyfreithwyr yn gweithredu ar ran eu cleientiaid, ac mae'n rhaid i'r erlynwyr sefydlu barn gyffredinol o'r achos lles y cyhoedd.

4.20 Ble fo gan erlynwyr gyfrifoldeb i esbonio eu penderfyniad i'r dioddefydd, er enghraifft, pan fyddant yn atal achos neu'n addasu'r cyhuddiad yn sylweddol, rhaid iddynt gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau a holl Ganllawiau perthnasol y CPS. Rhaid i erlynwyr ddilyn unrhyw weithdrefnau a gytunwyd, yn cynnwys cydymffurfio ag unrhyw gyfnod amser ar gyfer hysbysu'r dioddefydd am benderfyniadau o'r fath.

Y Prawf Trothwy

5.1 Bydd erlynwyr yn gweithredu'r Prawf Cod Llawn ble bynnag fo'n bosibl. Fodd bynnag, bydd rhai achosion ble mae'r rhai a ddrwgdybir yn cyflwyno risg mechnïaeth sylweddol o'u rhyddhau ac nid yw'r holl dystiolaeth ar gael pan fydd yn rhaid ei ryddhau ef neu hi o'r ddalfa oni bai y'i cyhuddir.

5.2 Mewn achosion o'r fath, fe allai erlynwyr weithredu'r Prawf Trothwy i wneud penderfyniad cyhuddo.

Pryd y gellir defnyddio'r Prawf Trothwy

5.3 Dim ond os fydd yr erlynydd yn fodlon y bodlonwyd y pedwar amod canlynol y gall weithredu'r Prawf Trothwy:

a) nid oes digon o dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i weithredu cam tystiolaethol y Prawf Cod Llawn; ac

b) mae sail resymol dros gredu y bydd rhagor o dystiolaeth ar gael o fewn cyfnod rhesymol o amser; ac

c) mae difrifoldeb neu amgylchiadau'r achos yn cyfiawnhau gwneud penderfyniad cyhuddo ar unwaith; ac

d) mae sail sylweddol barhaus i wrthod mechnïaeth yn unol â'r Ddeddf Mechnïaeth 1976 ac yn holl amgylchiadau'r achos gellir gwneud cais cywir i wrthod mechnïaeth.

5.4 Ble na fodlonir unrhyw un o'r achosion uchod, ni ellir gweithredu'r Prawf Trothwy ac ni ellir cyhuddo'r sawl a ddrwgdybir. Gellir cyfeirio achosion o'r fath yn ôl i swyddog y ddalfa a fydd yn penderfynu p'un a ellir parhau i ddal unigolyn neu ei ryddhau neu ei rhyddhau ar fechnïaeth, gyda neu heb amodau.

5.5 Mae dwy ran i'r ystyriaeth dystiolaethol o'r Prawf Trothwy.

Rhan gyntaf y Prawf Trothwy – a oes amheuaeth resymol?

5.6 Yn gyntaf, rhaid i erlynydd fod yn fodlon fod yna o leiaf amheuaeth resymol fod yr unigolyn i'w gyhuddo wedi cyflawni'r drosedd.

5.7 Wrth bennu p'un a oes amheuaeth resymol, rhaid i'r erlynydd ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Gall hyn fod ar ffurf datganiadau gan dystion, tystiolaeth berthnasol neu wybodaeth arall, ar yr amod fod yr erlynydd yn fodlon:

a) ei fod yn berthnasol; ac

b) y gellir ei roi ar ffurf dderbyniadwy i'w gyflwyno yn y llys; ac

c) y gellid ei ddefnyddio yn yr achos.

5.8 Os bodlonir y rhan hon o'r Prawf Trothwy, dylai'r erlynydd fynd ymlaen i ail ran y Prawf Trothwy.

Ail ran y Prawf Trothwy – a oes rhagolwg realistig o euogfarn?

5.9 Yn ail, rhaid i'r erlynydd fod yn fodlon fod sail resymol dros gredu y bydd yr ymchwiliad parhaus yn darparu tystiolaeth bellach o fewn cyfnod rhesymol o amser, fel y bydd yr holl dystiolaeth gyda'i gilydd yn darparu rhagolwg realistig o euogfarn yn unol â'r Prawf Cod Llawn.

5.10 Rhaid i dystiolaeth bellach fod yn adnabyddadwy ac nid yn ddyfaliadol yn unig.

5.11 Wrth ddod i benderfyniad dan yr ail ran hon o'r Prawf Trothwy, rhaid i'r erlynydd hefyd ystyried:

a) natur, ehangder a derbynioldeb unrhyw dystiolaeth bellach debygol a'r effaith a gaiff ar yr achos;

b) y cyhuddiadau y bydd yr holl dystiolaeth yn cefnogi;

c) pam nad yw'r dystiolaeth eisoes ar gael;

d) yr amser sydd angen i gael tystiolaeth bellach a p'un a yw unrhyw oedi o ganlyniad yn rhesymol dan yr amgylchiadau.

5.12 Os bodlonir y ddwy ran o'r Prawf Trothwy, rhaid i erlynwyr weithredu'r cam lles y cyhoedd neu'r Prawf Cod Llawn yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael ar y pryd.

Arolygu'r Prawf Trothwy

5.13 Rhaid dal i arolygu penderfyniad i gyhuddo dan y Prawf Trothwy. Rhaid asesu'r dystiolaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyhuddiad yn dal yn briodol a bod cyfiawnhad dros barhau i wrthod caniatáu mechnïaeth. Rhaid gweithredu'r Prawf Cod Llawn cyn gynted â'i bod yn rhesymol ymarferol a pha un bynnag cyn i'r cyfyngiad amser perthnasol ar gadw yn y ddalfa neu gyfyngiad amser estynedig yn y ddalfa ddod i ben.

Dewis Cyhuddiadau

6.1 Dylai erlynwyr ddewis cyhuddiadau sydd:

a) yn adlewyrchu difrifoldeb a maint y troseddau a gefnogir gan y dystiolaeth;

b) yn rhoi pwerau addas i'r llys gael dedfrydu a gosod gorchmynion priodol ar ôl euogfarnu; ac

c) yn sicrhau bod yr achos yn cael ei gyflwyno yn glir a syml.

6.2 Golyga hyn na fydd erlynwyr bob amser yn bwrw ymlaen neu barhau â'r cyhuddiad mwyaf difrifol ble mae dewis.

6.3 Ni ddylai erlynwyr fyth fwrw ymlaen â mwy o gyhuddiadau nag sy'n angenrheidiol dim ond er mwyn annog diffynnydd i bledio'n euog i ychydig o gyhuddiadau. Yn yr un modd, ni ddylent fyth fwrw ymlaen â chyhuddiad mwy difrifol dim ond er mwyn annog diffynnydd i bledio'n euog i gyhuddiad llai difrifol.

6.4 Ni ddylai erlynwyr newid y cyhuddiad dim ond oherwydd y penderfyniad a wnaed gan y llys neu'r diffynnydd ynghylch ble y gwrandawir yr achos.

6.5 Rhaid i erlynwyr ystyried unrhyw gyhuddiad perthnasol dan yr amgylchiadau wrth i'r achos ddatblygu wedi'r cyhuddiad.

Penderfyniadau tu Allan i'r Llys

7.1 Mae'r gwasanaeth erlyn yn gyfrifol am benderfynu p'un a ddylid cynnig rhybuddion amodol i droseddwyr dan rai amgylchiadau. Mewn achosion o'r fath, rhaid bodloni'r Prawf Cod Llawn. Bydd erlynwyr yn cynnig rhybuddion amodol pan fo'n ymateb cymesur i ddifrifoldeb ac oblygiadau'r troseddu a ble fo'r amodau a gynigir yn bodloni amcanion adsefydlu, iawndal neu gost o fewn amodau'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

7.2 Nid yw rhybuddion amodol yn euogfarn droseddol, ond mae'n rhan o gofnod troseddol troseddwr ac fe ellir ei grybwyll mewn llys yn ystod unrhyw weithdrefnau dilynol. Gall erlynwyr hefyd ei ystyried os fydd y troseddwr yn aildroseddu. Gall erlynwyr gynnig rhybuddion amodol os ydynt yn credu, wedi ystyried barn y dioddefydd, ei bod er lles y sawl a ddrwgdybir, y dioddefydd neu'r gymuned i wneud hynny.

7.3 Rhaid i erlynwyr ddilyn y Cod Ymarfer perthnasol a Chanllaw'r DPP ar Rybuddion Amodol wrth benderfynu p'un a ddylid cynnig rhybuddion amodol i droseddwr.

7.4 Mae'r cynnig o rybuddion amodol a dderbynnir ac y cydymffurfir ag o yn cymryd lle erlyniad. Os gwrthodir y cynnig o rybuddion amodol neu os nad yw'r sawl a ddrwgdybir yn gwneud y cyfaddefiad gofynnol o euogrwydd i'r unigolyn sy'n ceisio gweinyddu'r rhybuddion amodol, rhaid cael erlyniad ar gyfer y drosedd wreiddiol. Os na chydymffurfir â'r rhybuddion amodol, bydd yr erlynydd yn ailystyried lles y cyhoedd ac yn penderfynu p'un a ddylid cyhuddo'r troseddwr neu beidio. Fel arfer, dylid erlyn am y drosedd wreiddiol.

7.5 Dim ond troseddwyr all benderfynu p'un a ddylid awdurdodi'r cynnig o rybudd syml i droseddwr am drosedd y gellir ei gyflwyno yn Llys y Goron yn unig. Bydd yr achlysuron pan fydd hyn yn benderfyniad priodol yn rhagorol.

7.6 Ym mhob achos arall, gall erlynwyr gyfeirio y ceir cynnig rhybudd syml yn unol â Chanllaw'r CPS a Swyddfa Gartref, neu awgrymu, er enghraifft, gyhoeddi Hysbysiad Cosb am Anrhefn. Fodd bynnag, yr heddlu sydd i benderfynu ar gyhoeddi Hysbysiad Cosb am Anrhefn.

7.7 Rhaid i erlynwyr fod yn fodlon y diwallwyd y Prawf Cod Llawn a bod cyfaddefiad pendant o euogrwydd gan y troseddwr mewn unrhyw achos ble fyddant yn awdurdodi neu gyfarwyddo'r heddlu i gynnig rhybudd syml.

7.8 Mae derbyn rhybudd syml neu benderfyniad arall tu allan i'r llys y cydymffurfir ag o yn cymryd lle erlyniad. Os gwrthodir y cynnig o rybudd syml, rhaid cael erlyniad ar gyfer y drosedd wreiddiol. Os na dderbynnir unrhyw benderfyniad tu allan i'r llys arall, bydd erlynwyr yn gweithredu'r Prawf Cod Llawn ar dderbyn yr achos gan yr heddlu neu ymchwilwyr eraill, ac yn penderfynu p'un a ydynt am erlyn y troseddwr.

Pobl Ifanc

8.1 I ddibenion deddf droseddol, mae person ifanc yn rhywun sydd dan 18 oed.

8.2 Rhaid i erlynwyr gofio ym mhob achos yn ymwneud â phobl ifanc fod y Deyrnas Unedig yn llofnodydd i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 ac Isafswm Rheolau Safonol ar gyfer Gweinyddu Cyfiawnder Ieuenctid 1985 y Cenhedloedd Unedig. Yn ogystal, rhaid i erlynwyr dalu sylw i brif amcan y system cyfiawnder troseddol sef i atal troseddu gan blant a phobl ifanc. Rhaid i erlynwyr ystyried buddiannau'r person ifanc wrth benderfynu a fyddai eu herlyn er lles y cyhoedd.

8.3 Ni ddylai erlynwyr osgoi penderfynu erlyn oherwydd oed y sawl a ddrwgdybir yn unig. Mae difrifoldeb y drosedd neu ymddygiad y person ifanc yn y gorffennol yn bwysig iawn.

8.4 Fel arfer, ni fydd achosion sy'n gysylltiedig â phobl ifanc yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth erlyn nes bydd y person ifanc eisoes wedi derbyn cerydd a rhybudd terfynol, oni bai fod y drosedd mor ddifrifol fel nad oedd yr un o'r rhain yn briodol neu nad yw'r plentyn neu berson ifanc yn cyfaddef iddo neu iddi gyflawni'r drosedd.

8.5 Bwriad ceryddon, rhybuddion terfynol a rhybuddion amodol (gweler adran 7) yw atal aildroseddu a gallai'r ffaith fod trosedd bellach wedi digwydd awgrymu na fu'r gwarediadau blaenorol yn effeithiol. Fel arfer bydd lles y cyhoedd yn gofyn am erlyniad mewn achosion o'r fath.

Dull y Treial

9.1 Rhaid i erlynwyr dalu sylw i Ganllawiau Dedfrydu presennol y Llys Ynadon ac i'r Cyfarwyddyd Ymarfer perthnasol wrth wneud cyflwyniadau i'r llys ynglŷn â ble ddylid cyflwyno achos yn erbyn y diffynnydd.

9.2 Wrth ofyn i achos gael aros yn y llys ynadon, ni ddylid gwneud hynny o safbwynt cyflymdra yn unig. Ond dylai troseddwyr ystyried effaith unrhyw oedi tebygol os cyflwynir neu anfonir achos at Lys y Goron, a'r effaith bosibl ar unrhyw ddioddefydd neu dyst os ceir oedi gyda'r achos.

Lleoliad ar gyfer treial mewn achosion yn ymwneud â phobl ifanc

9.3 Yn gyffredinol, rhaid i erlynwyr gofio y dylid clywed achosion yn ymwneud â phobl ifanc yn y llys ieuenctid, ble bynnag fo'n bosibl. Dyma'r llys mwyaf addas i fodloni eu hanghenion penodol. Dim ond ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol neu ble fod buddiannau cyfiawnder yn galw am wrando achos person ifanc ar y cyd ag oedolyn y dylid clywed achos person ifanc yn Llys y Goron.

Derbyn Pledion Euog

10.1 Mae'n bosib y bydd diffynyddion eisiau pledio'n euog i rai cyhuddiadau, ond nid yr holl gyhuddiadau. Neu, mae'n bosib y byddant eisiau pledio'n euog i gyhuddiad gwahanol, cyhuddiad llai difrifol o bosib, oherwydd eu bod yn cyfaddef i ran o'r drosedd yn unig.

10.2 Ni ddylai erlynwyr dderbyn ple'r diffynnydd oni bai eu bod o'r farn y gall y llys draddodi dedfryd sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y drosedd, yn enwedig os oes nodweddion sy'n gwaethygu'r drosedd. Rhaid i erlynwyr beidio byth â derbyn ple euog dim ond oherwydd bod hynny'n gyfleus.

10.3 Wrth ystyried a yw'r pledion a gynigir yn dderbyniol, dylai erlynwyr sicrhau yr ystyrir buddiannau a, ble fo'n bosibl, safbwyntiau'r dioddefydd, neu mewn achosion priodol deulu'r dioddefydd, wrth benderfynu a yw derbyn y ple er lles y cyhoedd. Fodd bynnag, yr erlynydd sy'n gyfrifol am y penderfyniad.

10.4 Rhaid esbonio i'r llys ar ba sail y cyflwynir ac y derbynnir unrhyw ble. Mewn achosion lle bydd diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiadau ond ar sail ffeithiau sy'n wahanol i achos yr erlyniad, a ble gall hyn effeithio'n sylweddol ar y ddedfryd, fe ddylid gwahodd y llys i wrando tystiolaeth er mwyn penderfynu'r hyn a ddigwyddodd, ac yna ddedfrydu ar sail hynny.

10.5 Os bydd diffynnydd wedi nodi cyn hynny y bydd ef neu hi'n gofyn i'r llys gymryd trosedd i ystyriaeth wrth ddedfrydu, ond yna'n gwrthod cyfaddef y drosedd yn y llys, bydd erlynwyr yn ystyried a oes angen erlyn am y drosedd honno. Dylai erlynwyr esbonio i adfocad yr amddiffyn a'r llys y gallai erlyn y drosedd honno fod yn amodol i arolwg pellach.

10.6 Rhaid bod yn arbennig o ofalus wrth ystyried pledion a fyddai'n galluogi'r diffynnydd i osgoi'r ddedfryd fandadol leiaf. Wrth gynnig pledion, rhaid i erlynwyr gofio y gellir gwneud gorchmynion ategol gyda rhai troseddau ond nid gydag eraill.

10.7 Rhaid i erlynwyr gydymffurfio â "Chanllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Dderbyn Pledion a Rôl yr Erlynydd yn yr Ymarfer Dedfrydu" sy'n cyflwyno ehangder dyletswyddau a rôl yr erlynydd wrth dderbyn pledion euog.

Rôl yr Erlynydd wrth Ddedfrydu

11.1 Y llys sy'n penderfynu ar ddedfrydu, ond mae'n ddyletswydd ar erlynwyr i gynnig cymorth wrth i'r llys dedfrydu ddod i benderfyniad ar y ddedfryd briodol trwy dynnu sylw'r llys at y ffactorau canlynol:

a) unrhyw ffactorau sy'n gwaethygu neu'n lliniaru a ddatgelir gan achos yr erlyniad;

b) unrhyw Ddatganiad Personol gan y Dioddefydd;

c) ble fo'n briodol, tystiolaeth o effaith y troseddu ar gymuned;

d) unrhyw ddarpariaethau statudol, canllawiau dedfrydu, neu achosion canllaw allai fod o gymorth; ac

e) unrhyw ddarpariaethau statudol perthnasol yn gysylltiedig â gorchmynion ategol (megis gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol).

11.2 Gall erlynwyr hefyd gynnig cymorth i'r llys trwy wneud cyflwyniadau, yng ngoleuni'r holl ffactorau uchod, ynghylch yr ystod o ddedfryd ar gyfer y drosedd bresennol.

11.3 Mewn unrhyw achos cymhleth neu ble fo posibilrwydd ar gyfer camddealltwriaeth, rhaid i'r erlynydd gyflwyno'r ffactorau sy'n gwaethygu neu'n lliniaru y bydd ef neu hi yn amlinellu wrth hysbysu'r llys o'r achos yn y gwrandawiad dedfrydu. Ym mhob achos arall, dylid ystyried y dynesiad hwn a'i ddilyn os bydd o fudd i helpu'r llys neu'r cyhoedd i ddeall yr achos.

11.4 Mae'n ddyletswydd ar yr erlynydd i wneud cais am iawndal a gorchmynion ategol, megis gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol a gorchmynion atafaeliad, ym mhob achos priodol. Wrth ystyried pa orchmynion ategol i ymgeisio

amdanynt, rhaid i'r erlynydd dalu sylw i anghenion y dioddefydd, yn cynnwys eu diogelwch yn y dyfodol.

11.5 Dylai erlynwyr herio unrhyw haeriad lliniarol a wneir gan yr amddiffyniad sy'n anghywir, yn gamarweiniol neu'n niweidiol. Os bydd yr amddiffyniad yn parhau gyda'r haeriad, a'i fod yn ymddangos yn berthnasol i'r ddedfryd, dylid gwahodd y llys i wrando ar dystiolaeth i bennu'r ffeithiau a dedfrydu yn unol â hynny.

11.6 Rhaid i erlynwyr gydymffurfio â "Chanllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Dderbyn Pledion a Rôl yr Erlynydd yn yr Ymarfer Dedfrydu" sy'n cyflwyno ehangder dyletswyddau a rôl yr erlynydd yn y broses ddedfrydu.

Ailystyried Penderfyniad Erlyn

12.1 Fe ddylai pobl allu dibynnu ar benderfyniadau'r gwasanaeth erlyn. Fel arfer, os yw'r gwasanaeth erlyn yn dweud wrth sawl a ddrwgdybir neu ddiffynnydd na fydd erlyniad, neu fod yr erlyniad wedi ei atal, ni fydd yr achos yn ailgychwyn. Ond o bryd i'w gilydd ceir rhesymau arbennig yn sail i benderfyniad y gwasanaeth erlyn i wyrdroi penderfyniad i beidio erlyn neu i ddelio ag achos gyda phenderfyniad tu allan i'r llys pan fydd yn ailgychwyn yr erlyniad, yn arbennig os yw'n achos difrifol.

12.2 Dyma rai o'r rhesymau:

a) achosion prin pan fydd golwg newydd ar y penderfyniad gwreiddiol yn dangos ei fod yn anghywir ac, er mwyn cynnal hyder yn y system gyfiawnder troseddol, dylid erlyn er gwaethaf y penderfyniad cynharach;

b) achosion sy'n cael eu hatal er mwyn casglu a pharatoi rhagor o dystiolaeth sy'n debygol o fod ar gael yn y dyfodol cymharol agos. Yn yr achosion hyn, bydd yr erlynydd yn dweud wrth y diffynnydd ei bod hi'n bosib y gallai'r erlyniad ddechrau eto;

c) achosion sy'n cael eu hatal oherwydd diffyg tystiolaeth ond lle daw rhagor o dystiolaeth arwyddocaol i'r golwg yn ddiweddarach; ac

d) achosion yn ymwneud â marwolaeth ble mae arolwg o ganlyniad i gasgliadau cwest yn pennu y dylid erlyn, er gwaethaf unrhyw benderfyniad cynharach i beidio erlyn.

12.3 Efallai y bydd achosion eithriadol hefyd ble gallai'r erlynydd, yn dilyn rhyddfarn ar drosedd ddifrifol, gyda chaniatâd ysgrifenedig y DPP, wneud cais i'r Llys Apêl am orchymyn i ddileu'r rhyddfarn ac yn galw am ail achos yn erbyn y diffynnydd.

Mae hon yn ddogfen gyhoeddus.

Mae copïau eraill o'r ddogfen hon a gwybodaeth am ieithoedd a fformatau eraill ar gael gan:

CPS Communication Division
Rose Court
Southwark Bridge
Llundain SE1 9HF

E-bost: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Am wybodaeth ar Wasanaeth Erlyn y Goron, ac i weld a lawrlwytho copi electronig o'r ddogfen hon, ewch i'n gwefan:

www.cps.gov.uk

Cyfarwyddiaeth Polisi'r CPS
© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton